## Rhai ffeithiau allweddol am Lyfrgelloedd y Fro yn 2022/2023:

- Yn ystod y flwyddyn gwnaed 326,184 ymweliad â'n llyfrgelloedd, sef 6524 ymweliad yr wythnos ar gyfartaledd.
- Yn ystod y flwyddyn gwnaed 33,894 ymweliad â'n gwefan.
- Benthycwyd cyfanswm o 285,025 eitem o'n llyfrgelloedd, sef:
    - Cyfanswm nifer y llyfrau oedolion 122,575
    - Cyfanswm nifer y llyfrau plant 82,270
    - Cyfanswm nifer y cyhoeddiadau clyweledol 5,796
    - Cyfanswm nifer y lawrlwythiadau electronig 74,384
- Gofynnwyd am gyfanswm o 19,558 o deitlau unigol.
- Cyflwynwyd 3136 o ddigwyddiadau dysgu, darllen, diwylliannol a chymunedol, ac aeth 44,962 o bobl o bob oed iddynt.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar Ffurflen Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Llyfrgelloedd Bro Morgannwg Ebrill 2022 - Mawrth 2023.

## Perfformiad

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i Wasanaeth Llyfrgell y Fro gyflwyno adroddiad blynyddol i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yna gwneir asesiad blynyddol i'r Cyngor.

Yn ôl yr asesiad blynyddol diwethaf a dderbyniwyd ar gyfer 2021/22 mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflawni 5 allan o 5 Safon Ansoddol. Fodd bynnag, gostyngwyd nifer y safonau o gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

## Beth mae ein defnyddwyr yn ei ddweud

Marion Rowlands:
Diolch i'r holl staff am wneud Dydd Gŵyl Dewi mor arbennig. Y crefftau i'r plant a choffi a chacennau cri. Mae fy wyres wrth ei bodd â'r gwaith crefft, gyda chymorth y merched ymroddedig ar y diwrnod. Diolch yn fawr iawn.

Hyfryd! Mae'r llyfrgell yn drysor yng nghalon cymuned Penarth!!

Jeanne Owens Pickford:
Diolch yn fawr iawn am drefnu'r digwyddiad hwn, cawsom amser gwych ac rydym yn ddiolchgar iawn am gael tîm mor wych yn ein llyfrgell leol.

Mae'r staff yn wych, maen nhw'n mynd allan o'r ffordd i wneud y llyfrgell yn brofiad gwych i bawb o bob oedran ac maen nhw wedi cynnal digwyddiadau i bawb. Trysor yng nghanol y Fro!

Emma Howard:
Cafodd Seren amser gwych yn Llyfrgell Penarth heno gyda *Magic, Muggles a Mr Marvel - Children's Entertainer* !! Diolch yn fawr iawn i staff y llyfrgell a Mr Marvel am ddigwyddiad mor wych.
*#exsmellyarmpits*

Diamond Crime:
Diolch yn fawr iawn i Kerry, Rhodri, Bex a phawb yn Llyfrgell Penarth am noson wych o sgwrsio am lyfrau, trosedd a chyhoeddi, gyda straeon difyr a doniol.

Anna

"Rydyn ni'n mynychu'r sesiwn gerddoriaeth foreol wythnosol a'r Clwb Lego gyda fy nau fachgen hŷn.  Mae'r llyfrgell wedi bod yn wasanaeth hyfryd a dibynadwy i'w fynychu ac wedi helpu i strwythuro ein diwrnodau.  Mae'r awyrgylch yno bob amser yn groesawgar a thawel, gyda staff gwych.'  Mae wedi helpu fy mhlentyn 11 mis i ddysgu cymdeithasu a chanu, mae'n dechrau bownsio yn y bygi pan mae'n gweld ein bod yn agos at y llyfrgell. Mae fy meibion 5 a 7 oed yn mynychu'r sesiynau Lego ac yn benthyca llyfrau ac mae wedi helpu i dawelu a gwella eu ffocws a chynyddu eu mwynhad a'u chwilfrydedd o lyfrau.  Mae'n wasanaeth gwych."

Julia Stubbings

O safbwynt y teulu, yn enwedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar a'r grŵp oedran cynradd, mae gwasanaethau'r llyfrgell yn darparu sawl cyfle ar gyfer: datblygiad plant, ymgysylltu cymunedol/ cymdeithasol, strwythur dyddiol ac iechyd a lles

cyffredinol. Yn bersonol rwy'n ddiolchgar am y gwasanaeth 'Tap & Clap' yn Llyfrgell Llanilltud. Roedd y diodydd poeth yn ystod 'Gaeaf Llawn Lles/ Mannau Cynnes' yn gysur, ynghyd â'r teganau, posau rhifedd, llythrennedd a lliwio. Hefyd, mae benthyca llyfrau – y bara-menyn = wedi bod yn hanfodol ar gyfer diwylliant darllen yn y gymuned a'r cartref. Mae'r llyfrau'n gyfoes. Rydym hefyd wedi defnyddio'r sesiynau amser stori a chrefft yn Llyfrgell Llanilltud ar ddydd Sadwrn, mae'r gweithgareddau crefft yn greadigol iawn ac o safon uchel. Rydym bellach yn agosáu at wyliau'r haf ac o ran cynllunio archwilio ystyrlon, diwylliannol a hwyliog i ddatblygu a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, rydw i mor ddiolchgar am 'weithgareddau gwyliau'r haf' sydd ar gael yn llyfrgell Llanilltud a'r Bont-faen... Mae'r gwasanaethau'n cael dylanwad cadarnhaol ar ein cyllid, yn enwedig gan fy mod yn fam llawn amser i blant ifanc. Diolch am eich gwasanaethau.